Bernard o Clairvaux: 1090–1153

Y sant ddaeth â goleuni i'r byd

Cryfder / gostyngeiddrwydd

Pan fyddwch chi'n dod at eich gilydd i'r gwasanaeth fyddwch chi'n dweud "Ein Tad" efo'ch gilydd? Gelwir y weddi hon yn "Weddi'r Arglwydd." Gweddi ydi hi o waith Iesu Grist. Mae pobl eraill wedi ysgrifennu gweddïau hefyd. Yn y stori hon, cawn hanes Bernard o Ddyffryn y Goleuni. Ysgrifennodd ef weddi:

"O Dduw amddiffyn ni rhag popeth drwg, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen."

Roedd rhai o'r mynaich hyn yn grwgnach ymhlith ei gilydd.

"Mae'n rhaid i ni gael trefn ar y mynaich ieuanc yma. Roeddwn i'n sylwi neithiwr bod rhai ohonyn nhw wedi esgeuluso'r hwyrol weddi…"

Torrodd un arall ar ei draws, "A'r bore yma dim ond dau ohonyn nhw oedd yn y foreol weddi. Mae pethau wedi llacio'n arw iawn yn y fynachlog yma."

Penderfynodd y ddau fynach adael y fynachlog a mynd ati i adeiladu mynachlog newydd. Ond ar ôl adeiladu'r fynachlog hon roedd rhai o'r mynaich yn dechrau cwyno eto. Erbyn hyn, roedd bywyd yno'n llawer rhy gaeth. Dechreuodd y mynaich adael fesul un. Credai'r Abad y byddai'n rhaid cau'r fynachlog.

Un noson, a'r mynaich ar fin noswylio, daeth cnoc ar y drws.

"Pwy sydd yna yr adeg yma o'r nos? Fe gei di fynd i'r drws i weld pwy sydd yna," meddai'r Abad wrth un o'r mynaich.

Aeth yntau i'r drws. Roedd tua deg ar hugain o wŷr ieuanc cyhyrog wrth y drws.

"Arhoswch yma, mi af i nôl yr Abad," meddai'r mynach. Aeth nerth ei draed i chwilio am yr Abad. Daeth yntau i'r drws i'w gweld.

"Ydych chi wedi dod yma i'n lladd ni?" holodd.

"O na," meddai un o'r dynion. "Rydym wedi dod â thangnefedd Duw gyda ni."

"Croeso i'r fynachlog," meddai'r Abad, "fe gewch groeso a llety dros nos."

"Dydyn ni ddim eisiau llety dros nos," atebodd un o'r dynion, "rydym ni eisiau aros yma efo chi am byth."

Aeth ymlaen i ddweud wrth yr Abad, "Bernard yw f'enw i.

Rydw i yn fab yr Arglwydd Fontaines. Fy mrodyr a'm ffrindiau ydi'r rhain ac mi rydyn ni i gyd eisiau ymuno â chi yn y fynachlog."

"Dyma ateb Duw i'n gweddïau," meddai'r Abad. "Roeddem yn credu y buasai'n rhaid i ni gau'r fynachlog, ond erbyn hyn bydd y fynachlog yn llawn. Ond cofiwch, mae bywyd yma yn anodd iawn. Mae'n union fel bywyd milwr sy'n barod i fynd i frwydr."

"O! peidiwch â phoeni," meddai Bernard, "milwyr ydi'r rhan fwyaf o'r dynion yma. Rydym yn gwybod yn iawn beth ydi bywyd caled, caeth."

Ar ôl dwy flynedd efo'i gilydd yn y fynachlog, anfonwyd Bernard a chriw o'r mynaich i agor mynachlog newydd. Dewisodd Bernard lecyn hyfryd ar lan afon mewn dyffryn a elwid yn Ddyffryn Chwerwder. Ar ôl adeiladu'r fynachlog, roedd bywyd yn anodd iawn i'r mynaich. Doedd dim bwyd ar eu cyfer a doedd dim arian ar gael i brynu bwyd.

Meddai Bernard wrth y mynaich un diwrnod, "Gofynnwn am fara yn enw Duw."

Pan aeth un o'r mynaich am dro i'r goedwig, yn ôl ei arfer daeth ar draws dyn mewn gwisg laes. Bu'r ddau yn sgwrsio am hir, "Ond cyn i ti fynd," meddai'r dyn yn y wisg laes, "ydw i'n iawn eich bod yn brin o fara yn y fynachlog?"

Roedd y mynach wedi rhyfeddu o'i glywed yn dweud hyn. Aeth yn ôl yn llawen iawn a dywedodd ei stori wrth Bernard.

"O hyn ymlaen," meddai yntau, "nid Dyffryn Chwerwder fydd enw'r dyffryn hwn ond Dyffryn y Goleuni neu Clairvaux." A dyna pam y gelwir Abad cyntaf y fynachlog hon yn Bernard o Clairvaux.

"Myfi yw goleuni'r byd."
Ioan 8:12

O Dduw,
amddiffyn ni rhag popeth drwg,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Fyddech chi'n hoffi byw mewn mynachlog neu leiandy?
Pa werth sydd yna o fyw bywyd fel hyn?